

N510

Hysbysiad i'w gyflwyno y tu allan i'r awdurdodaeth pan nad oes angen caniatâd y llys (CPR 6.34)

Yn	
Rhif yr hawliad	

Enw'r hawlydd

Enw'r diffynnydd

Sylwch:

Pan fo Rheol Trefniadaeth Sifil (CPR 6.34) yn berthnasol rhaid llenwi'r ffurflen hon a'i ffeilio yn y llys gyda'r ffurflen hawlio (www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil). Hefyd, rhaid cyflwyno copi o'r ffurflen gyda'r ffurflen hawlio.

Pan nad yw'r ffurflen hon wedi'i hanfon â ffurflen hawlio i'w chyflwyno ar ddiffynnydd y tu allan i'r awdurdodaeth o dan CPR 6.34, dim ond ar ôl ffeilio'r ffurflen hon gyda'r llys neu os bydd y llys yn rhoi caniatâd (CPR 6.34 (2)) y gellir cyflwyno'r ffurflen hawlio.

Pan fydd ffurflen hawlio yn cael ei chyflwyno heb fanylion yr hawliad, rhaid hefyd anfon copi o Ffurflen N1D - Nodiadau i ddiffynnydd ar gyfer ymateb i'r ffurflen hawlio y tu allan i'r awdurdodaeth.

Ticiwch un o'r blychau canlynol fel eich datganiad ar gyfer pam y gellir cyflwyno'r ffurflen hawlio y tu allan i'r awdurdodaeth heb ganiatâd y llys. Hefyd, dylech ddileu unrhyw beth o fewn cromfachau sgwâr sydd yn amherthnasol. Defnyddiwch Rhan 1 os yw'r ffurflen hawlio i'w chyflwyno yn Yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu Rhan 2 os yw'r ffurflen hawlio i'w chyflwyno y tu allan i Gymru a Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

RHAN 1 – Cyflwyno'r ffurflen hawlio yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon (CPR 6.32)

Ar gyfer achosion lle y mae CPR 6.32(1)(a) a 6.32(1)(b)(i) yn berthnasol, y datganiad yw:-

- "Datganaf fod pob hawliad i'w gyflwyno a wneir yn erbyn y diffynnydd ac sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen hawlio yn hawliad y mae gan y Llys bŵer i benderfynu arno o dan Ddeddf Awdurdodaeth a Dyfarniadau Sifil 1982 ac
- (a) nid oes unrhyw achos rhwng y partïon sy'n ymwneud â'r un hawliad yn Llysoedd unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd; ac
 - (b) y mae domisil y diffynnydd yn y Deyrnas Unedig."

Ar gyfer achosion lle y mae CPR 6.32(1)(a) a 6.32(1)(b)(ii) yn berthnasol, y datganiad yw:-

- "Datganaf fod pob hawliad i'w gyflwyno a wneir yn erbyn y diffynnydd ac sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen hawlio yn hawliad y mae gan y Llys bŵer i benderfynu arno o dan Ddeddf Awdurdodaeth a Dyfarniadau Sifil 1982 ac
- (a) nid oes unrhyw achos rhwng y partïon sy'n ymwneud â'r un hawliad yn Llysoedd unrhyw ran allan o'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd; ac
 - (b) y mae paragraff 11 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno yn berthnasol i'r achos."

Ar gyfer achosion lle y mae CPR 6.32(1)(a) a 6.32(1)(b)(iii) yn berthnasol, y datganiad yw:-

- "Datganaf fod pob hawliad i'w gyflwyno a wneir yn erbyn y diffynnydd ac sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen hawlio yn hawliad y mae gan y Llys bŵer i benderfynu arno o dan Ddeddf Awdurdodaeth a Dyfarniadau Sifil 1982 ac
- (a) nid oes unrhyw achos rhwng y partïon sy'n ymwneud â'r un hawliad yn Llysoedd unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd; ac
 - (b) y mae'r diffynnydd yn barti i gytundeb sy'n rhoi awdurdodaeth o fewn paragraff 12 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno."

Ar gyfer achosion lle y mae CPR 6.32(2) yn berthnasol, y datganiad yw:-

- Datganaf fod pob hawliad i'w gyflwyno a wneir yn erbyn y diffynnydd ac sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen hawlio yn hawliad y mae gan y Llys bŵer i benderfynu arno dan ddeddfiad heblaw am Ddeddf Awdurdodaeth a Dyfarniadau Sifil 1982, sef (nodwch ddarpariaethau'r deddfiad y dibynnir arnynt i roi'r pŵer) er gwaethaf y ffaith
- (a) nad yw'r diffynnydd o fewn yr awdurdodaeth; ac
 - (b) na ddigwyddodd y ffeithiau sy'n sail i'r hawliad o fewn yr awdurdodaeth."
-

RHAN 2 – Cyflwyno'r ffurflen hawlio mewn unrhyw awdurdodaeth heblaw am Gymru a Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Ar gyfer achosion lle y mae CPR 6.33(2) (a) yn berthnasol, y datganiad yw:-

- "Datganaf fod pob hawliad i'w gyflwyno a wneir yn erbyn y diffynnydd ac sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen hawlio yn hawliad y mae gan y Llys bŵer i benderfynu arno ac
- (a) nid oes unrhyw achos rhwng y partïon sy'n ymwneud â'r un hawliad yn llysoedd unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd; ac
 - (b) (i) nid yw'r diffynnydd yn ddefnyddiwr, ond y mae'n barti i contract defnyddiwr yn unol ag adran 15B(1) Deddf Awdurdodaeth a Dyfarniadau Sifil 1982; neu
 - (ii) y mae'r diffynnydd yn gyflogwr ac yn barti i contract cyflogaeth yn unol ag adran 15C(1) Deddf Awdurdodaeth a Dyfarniadau Sifil 1982."
-

Ar gyfer achosion lle y mae CPR 6.33(2B) (b) neu (c) yn berthnasol, y datganiad yw:-

- "Datganaf fod pob hawliad i'w gyflwyno a wneir yn erbyn y diffynnydd ac sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen hawlio yn hawliad a wnaed yn unol â neu yng nghyswllt contract sy'n cynnwys term sy'n golygu y bydd gan y Llys awdurdodaeth i benderfynu ar yr hawliad hwnnw."
-

Ar gyfer achosion lle y mae CPR 6.33(2B) (a) yn berthnasol, y datganiad yw:-

- "Rwy'n datgan fod pob hawliad i'w gyflwyno a wneir yn erbyn y diffynnydd ac sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen hawlio yn hawliad lle mae gan y Llys bŵer i bennu dan Gonfensiwn Yr Hâg 2005 a bod y diffynnydd yn barti i gytundeb cyfyngedig dewis llys sy'n penodi awdurdodaeth ar y llys hwnnw o fewn cwmpas ystyr Erthygl 3 Confensiwn Yr Hâg 2005."
-

Ar gyfer achosion lle y mae CPR 6.33(3) yn berthnasol, y datganiad yw:-

- "Datganaf fod pob hawliad i'w gyflwyno a wneir yn erbyn y diffynnydd ac sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen hawlio yn hawliad y mae gan y Llys bŵer i benderfynu arno heblaw o dan Gonfensiwn Yr Hâg 2005, er gwaethaf y ffaith-
- (a) nad yw'r unigolyn y mae'r hawliad wedi'i wneud yn ei erbyn o fewn yr awdurdodaeth; neu
 - (b) na ddigwyddodd y ffeithiau sy'n sail i'r hawliad o fewn yr awdurdodaeth."
-

Datganiad Gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

- Credaf fod y ffeithiau a nodir yn yr hysbysiad hwn yn wir.
- Creda'r hawlydd fod y ffeithiau a nodir yn yr hysbysiad hwn yn wir. Fe'm hawdurdodir yn briodol gan yr hawlydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod

- Hawlydd
- Cyfaill cyfreitha (pan fo credydwr y dyfarniad yn blentyn neu'n barti a warchodir)
- Cynrychiolydd cyfreithiol yr hawlydd (fel y'i diffinnir gan CPR 2.3(1))

Dyddiad

Diwrnod

Mis

Blwyddyn

Enw llawn

Enw ffyrm cynrychiolydd cyfreithiol yr hawlydd

Os llofnodir ar ran ffyrm neu gwmni, safle neu swydd a ddelir